

CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
PWYLLGOR DIBENION CYFFREDINOL
A GYNHALIWDYD AR 9^{fed} EBRILL 2024 AM 7.30YH

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr ac yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Y Cyng. Peter Hughes Griffiths fu'n cadeirio'r cyfarfod.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Peter Hughes Griffiths, Alun Lenny (fideo), Arwel Lloyd (fideo), Wyn Thomas, a Barry Williams (fideo).

Emma Smith – Clerc i'r Cyngor Tref
 Wendy Dickson – Dirprwy Clerc a Rheolwr Cyllid
 Llinos Haf Jones – Cyfieithydd

392. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr . Angharad Jones Leefe, Miriam Moules, Emlyn Schiavone, Russell Sparks, Aled Williams.

393. Datgan buddiannau.

Dim

Adroddiad Clerc y Dref

394. Ceisiadau Cynllunio

- i. **PL/07425** - Newid defnydd o adeilad swyddfa - deintyddfa i 4 fflat - 7 The Parade, Caerfyrddin, SA31 1LY – **DIM GWRTHWYNEBIAD**
- ii. **PL/07392** - Trosi atig gydag estyniad to a dormerau gyda lôn fynediad newydd - Cwmau Uchaf, Heol Maes y Prior, Bancyfelin, Caerfyrddin, SA33 5DS – **DIM GWRTHWYNEBIAD**
- iii. **PL/07485** – Estyniad cefn llawr cyntaf arfaethedig uwchben ystafell ymolchi'r gegin bresennol gyda newid I sosodiad y cynllun llawr presennol – 30 Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HE – **DIM GWRTHWYNEBIAD**
- iv. **PL/07060** – Gwaith atgyweirio hanfodol wedi ei wneud I ddrychiad I blaen yr adeilad er mwyn dileu treiddiad dwr glaw gan ddiogelu cyfanrwydd yr adeilad. Roedd y Gwaith yn cynnwys datgymalu llechi to presennol a oedd wedyn yn cael eu hailosod ag estyll a ffelt to newydd ac eithro rhyw 36 o lechi Cymreig oherwydd difrod, defnyddiwyd yr holl lechi gwreiddiol – 2 Heol y Prior, Caerfyrddin, SA31 1LS – **DIM GWRTHWYNEBIAD**
- v. **PL/07460** - Newid defnydd cyn dafarn I greu x 3 fflat – Carmarthen Gwrsa Club, Brewery Buildings, Heol y Bragdy, Caerfyrddin, SA31 1TF – **DIM GWRTHWYNEBIAD.**
- vi. **Gwrandawriad Apêl - Safle** – Tŷ Llwyn Pisgwydd, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SW

Datblygiad – Trosi cyn swyddfeydd yn 9 fflat, gan gynnwys Dymchwel toiledau datgysylltu ac ychwanegu ystafelloedd boeler ac adeiladu 3 o Anheddau ar wahân a 2 o dai annedd ar wahân.

Rheswm apêl – Gwrthod caniatâd cynllunio.

Cytunodd yr Aelodau ar **DIM GWRTHWYNEBIAD**.

395. Materion Priffyrdd

GORCHYMYN/GORCHYMYN - CAERFYRDDIN CYFYNGIADAU AROS A MANNAU PARCIO STRYD / CAERFYRDDIN CYFYNGU AR AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD - HTTR/1715

NODODD yr Aelodau'r gorchymyn.

396. Materion Trwyddedu

Dim

397. Placiau ar gyfer beddau babanod hanesyddol heb eu marcio ym Mynwent Caerfyrddin

Amlinellodd y Clerc i'r Aelodau y trefniadau ar gyfer claddu babanod marw-anedig hyd at ddiwedd y 1990au ac i ystyried darparu rhywle i deuluoedd osod placiau coffa er cof am eu hanwyliaid.

Cynigiodd y Cyng. Alun Lenny y dylid caniatáu'r placiau ar yr amod bod cysondeb o ran maint a lliw. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Wyn Thomas, roedd yr holl aelodau o blaid ac **ARGYMHELLWYD** y cynnig i'r Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 7:53 y.h.